


5. Symud a Dileu Cynnwys

Gallwch symud cynnwys i leoliadau newydd yn y System Rheoli Cynnwys, neu eu dileu lle bo angen. Rhaid bod yn ofalus wrth wneud hyn. Pan fydd cynnwys yn cael ei ddileu, byddwch yn dal i allu ei weld yn y SRhC, wedi ei nodi fel cynnwys anweithredol, hyd nes y bydd gweinyddwr yn gwagio Bin Ailgylchu'r System Rheoli Cynnwys.


Sylwch fod symud a dileu cynnwys yn effeithio ar fersiynau Cymraeg a Saesneg y cynnwys ill dwy.

Symud cynnwys


1. Agorwch y 'Site Structure' a phorwch i'r adran sy'n cynnwys y darn penodol o gynnwys rydych chi am ei symud.
2. Cliciwch ar yr adran er mwyn ei hagor.
3. Bydd tudalen 'General section details' yn ymddangos. Cliciwch ar dab 'Content'.
4. Dewch o hyd i'r cynnwys rydych chi eisiau ei symud a chliciwch ar fotwm 'Actions' ar y dde.
5. Dewiswch 'Move' o'r ddewislen sy'n ymddangos.



6. Bydd y sgrin 'Move Content' yn ymddangos, cliciwch ar yr adran yr hoffech symud y cynnwys iddi.




7. Bydd neges yn ymddangos ar waelod y dudalen i roi gwybod bod y cynnwys wedi ei symud yn llwyddiannus:




8. Bydd y system yn mynd â chi yn ôl i dab 'Content', lle byddwch yn gweld nad yw'r cynnwys yr ydych wedi ei symud wedi'i restru yn yr adran hon mwyach.

Dileu Cynnwys

1. Agorwch y 'Site Structure' a phorwch i'r adran sy'n cynnwys y cynnwys rydych chi am ei ddileu.
2. Cliciwch ar yr adran er mwyn ei hagor.
3. Bydd tudalen 'General section details' yn ymddangos. Cliciwch ar dab 'Content'.
4. Dewch o hyd i'r cynnwys rydych chi eisiau ei ddileu a chliciwch ar fotwm 'Actions' ar y dde.
5. Dewiswch 'Delete' o'r ddewislen sy'n ymddangos.




6. Bydd ffenestr gadarnhau yn ymddangos:



7. Cliciwch ar y botwm 'Delete content' er mwyn gorffen.
8. Os ydych wedi dewis dileu cynnwys a adlewyrchir yn union mewn adrannau eraill, dangosir rhestr i chi o'r manau ble mae'r cynnwys yn cael ei

adlewyrchu, a gofynnir i chi a ydych am ei ddileu o'r adran hon yn unig neu ei ddileu'n llwyr.





9. Gofalwch eich bod yn gwneud y dewis cywir. Dewiswch "Remove from Section" i dynnu'r un darn hwn o gynnwys o'r adran hon yn unig, neu dewiswch "Delete content" i ddileu'r cynnwys hwn yn gyfan gwbl o bob adran lle caiff ei adlewyrchu. Cliciwch ar 'Confirm' i barhau.

10. Bydd neges yn ymddangos ar waelod y dudalen i roi gwybod bod y cynnwys wedi ei ddileu yn llwyddiannus:



11. Bydd y system yn mynd â chi yn ôl i dab 'Content', lle byddwch yn gweld bod y cynnwys a symudwyd naill ai:

- a. wedi ei nodi fel cynnwys anweithredol (fe wnaethoch ddileu cynnwys arferol)

	Test 2  General Content	1.0	Inactive	February 9, 2018 11:34 AM
---	---	-----	----------	---------------------------

Showing 1 to 2 of 2 entries

- b. ddim wedi ei restru yn yr adran hon mwyach (fe wnaethoch ddileu cynnwys a adlewyrchir mewn adrannau eraill)

Nodiadau: Os ydych chi angen symud neu ddileu adran gyfan, gweler [Taflen Wybodaeth 2.2](#) (Cymedrolwyr yn Unig).

Mae gan rai adrannau adran wedi'i dynodi fel 'bin', a gellir symud cynnwys neu adrannau anweithredol i'r fan honno. Mae hyn yn ddefnyddiol os ydych yn ei chael yn ddryslyd bod yna gynnwys anweithredol mewn adrannau. Defnyddiwch y cyfarwyddiadau yn rhan gyntaf y ddogfen hon i symud cynnwys i adran y 'bin'.